



Cyfarfod

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG

Dyddiad ac Amser

5.30 y.h., DYDD MERCHER, 6ED MAWRTH, 2019

Lleoliad

Y Brif Neuadd, Y Ganolfan, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9LU

Pwynt Cyswllt

Bethan Adams

01286 679020

BethanAdams@gwynedd.llyw.cymru

(DISTRIBUTED 26/02/19)

AELODAETH:

Cyngor Gwynedd:

Cynghorydd E. Selwyn Griffiths
Cynghorydd Alwyn Gruffydd
Cynghorydd Nia Wyn Jeffreys

Aelod Lleol
Aelod Lleol
Aelod Lleol

Aelodau Cyfetholedig:

Cynghorydd Llywelyn Rhys
I'w gadarnhau
David Eastwood
Dr John Jones-Morris
Ian Roberts
Robert Owen
Peter Lunt Williams

Cynrychiolydd Cyngor Tref Porthmadog
Cynrychioli Buddiannau Perchenogion Tir
Cynrychioli Buddiannau Harbwr
Cynrychioli Buddiannau Hamdden
Cynrychioli Buddiannau Diwydiannol
Cynrychioli Buddiannau Masnachol
Cynrychioli Sefydliad y Bad Achub Cricieth

Sylwedyddion:

Cynghorydd Ioan Thomas
David Williams
Cynghorydd Rob Triggs
Cynghorydd Peter Read

Aelod Cabinet Datblygu'r Economi
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Abermaw
Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Pwllheli

Eraill a wahoddwyd:

Aelodau Pwyllgorau Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi, Abermaw a Pwllheli ar gyfer
Eitem 5

RHAGLEN

1. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

3. MATERION BRYD

Ystyried unrhyw fater arall sydd yn teilyngu sylw bryd ym marn y Cadeirydd.

4. COFNODION

4 - 7

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2018, fel rhai cywir.

5. CYFLWYNIAD AR Y COD DIOGELWCH MOROL PORTHLADDOEDD

I dderbyn cyflwyniad gan Capten Forkanul Quader o Arolygaeth Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau.

6. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLI'R HARBWR

8 - 16

Cyflwyno adroddiad yr Uwch Swyddog Harbyrau.

7. CYLCH GORCHWYL Y PWYLLGOR HARBWR

17 - 18

I nodi cylch gorchwyl y pwyllgor harbwr.

8. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

I nodi y cynhelir cyfarfod nesaf Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog ar 9 Hydref 2019 yn ddarostyngedig i'w gadarnhau gan y Cyngor Llawn.

PWYLLGOR YMGYNGHOROL HARBWR PORTHMADOG 10/10/18

YN BRESENNOL:

Y Cyngorydd Alwyn Gruffydd (Cadeirydd)
Y Cyngorydd Nia Jeffreys (Is-gadeirydd)

Y Cyngorydd Selwyn Griffiths (Cyngor Gwynedd), ynghyd â Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden), Robert Owen (Cynrychiolydd Buddiannau Masnachol) a Peter L. Williams (Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub).

HEFYD YN BRESENNOL: Malcolm Humphreys (Harbwr Feistr Porthmadog), Arthur Francis Jones (Uwch Swyddog Harbyrau), Llŷr B Jones (Uwch Reolwr Economi a Chymuned) a Bethan Adams (Swyddog Cefnogi Aelodau).

YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet Datblygu'r Economi).

1. CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ail-ethol y Cyngorydd Alwyn Gruffydd yn gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.

2. IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ail-ethol y Cyngorydd Nia Jeffreys yn is-gadeirydd y Pwyllgor hwn am y flwyddyn 2018/19.

3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

4. MATERION BRYD

Nododd y Cadeirydd nad oedd Barry Davies, Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ei fod i ffwrdd o'r gwaith o ganlyniad i anaf. Dymunwyd adferiad buan iddo.

Nododd aelod ei werthfawrogiad o broffesiynoldeb a dyfalbarhad staff yn wyneb ymddygiad annerbyniol unigolion mewn digwyddiad ar draeth Morfa Bychan. Ategwyd y sylw gan nodi diolchiadau aelodau'r Pwyllgor.

Llongyfarchwyd Dr John Jones-Morris (Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden) ar ei benodiad yn Ddirprwy Gomodor Clwb Hwyllo Madog.

5. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 7 Mawrth, 2018, fel rhai cywir.

6. DIOGELWCH HARBWR

Ni nodwyd unrhyw fater o ran diogelwch harbwr.

7. DIWEDDARIAD AR FATERION RHEOLAETHOL YR HARBWR

Tywysodd yr Uwch Swyddog Harbyrau yr aelodau drwy'r adroddiad, gan dynnu sylw at y prif bwyntiau canlynol:

- Mewn ymateb i argymhellion Asiantaeth Gwylwyr y Glannau, yn eu hadroddiad ar drefniadau a systemau diogelwch harbyrau bwrdeistrefol Gwynedd a chydymffurfiaeth â'r Côt Diogelwch Morol, byddai Cabinet y Cyngor yn cael eu penodi'n 'Ddeilydd Dyletswydd' a Chaptan M. Forbes (Harbwr Feistr Conwy) yn 'Berson Dynodedig'.
- Bod archwilwyr Asiantaeth Gwylwyr y Glannau i fod i ail-ymweld â'r gwasanaeth a rhoi cyflwyniad i'r Pwyllgor ynghylch y Côt Diogelwch Morol. Fodd bynnag, oherwydd amgylchiadau annisgwyl, gohiriwyd yr ymweliad tan fis Mawrth 2019 i gyd-fynd â chyfarfod y Pwyllgor hwn.
- Daeth cyfnod cyflogaeth Cymhorthydd Harbwr Porthmadog (tymhorol) i ben 30 Medi 2018. I sicrhau cymorth gyda gwaith yr harbwr, ymestynnwyd y cyfnod cyflogaeth ar drefniant tri diwrnod yr wythnos, mis ar y tro.
- Yn ddiabynnol ar gyfyngiadau ariannol a chyllidebol, bod y gwasanaeth yn chwilio am bosibilrwydd cyflogi cymhorthydd harbwr llawn amser i weithio yn harbyrau Porthmadog, Aberdyfi ac Abermaw. Byddai swydd cymhorthydd harbwr ym Mhorthmadog fel arall yn dychwelyd i weithio'n llawn amser ar 1 Ebrill 2019.
- Cyfeiriwyd at grynodedd bras o gyllidebau'r harbwr a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd y chwarter.
- O safbwynt ffioedd a thaliadau arfaethedig Harbwr Porthmadog yn ogystal â ffioedd lansio Badau Dŵr Personol yn 2019/20, bwriad y gwasanaeth oedd addasu'r ffioedd yn unol â'r gyfradd chwyddiant. Disgwylir am gadarnhad o'r cyfraddau oedd i'w defnyddio.

Cyflwynodd Harbwr Feistr Porthmadog adroddiad a oedd yn rhoi crynodeb o'r materion mordwyo a gweithredol a gododd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Medi 2018, gan gynnwys materion cynnal a chadw a digwyddiadau yn ystod y cyfnod. Diolchodd i Gynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub a chriw Bad Achub Cricieth am eu cymorth wrth ymdrin â suddiad y cwch catamaran 'Jessica's Day' yn yr Harbwr gyda'r nos ar 23 Gorffennaf.

Nododd Cynrychiolydd Sefydliad y Bâd Achub bod Bad Achub Cricieth wedi ymateb i 3 galwad yng nghyswllt unigolion mewn trafferth ar Fanc y Gogledd ar draeth Y Graig Ddu, gan achub bywyd 10 unigolyn. Pwysleisiodd pwysigrwydd bod yr arwyddion diogelwch newydd yn cael eu gosod mor fuan â phosib. Cyfeiriodd at y bwriad i dynnu rhai o'r arwyddion yn ystod misoedd y gaeaf er lleihau difrod gan y tywydd garw, gan nodi ei bryder. Nododd nad oedd y risg yn lleihau yn ystod y gaeaf gyda digwyddiadau yn bosib yn ystod y cyfnod.

Nododd aelod y dylid gweithredu yn unol â chyfarwyddyd Sefydliad y Bad Achub. Mewn ymateb, nododd Harbwr Feistr Porthmadog y byddai'r arwyddion diogelwch yn cael eu gosod yn unol â'r hyn a gytunwyd mewn ymgynghoriad â Sefydliad y Bad Achub.

Nododd aelod bod y gwaith a wnaed fel rhan o'r Cynllun Lliniaru Llifogydd ym Morth-y-gest wedi bod yn destun trafod. Ymhelaethodd bod y wal a godwyd yn angenrheidiol er mwyn gwarchod tai rhag llifogydd yn y dyfodol. Nododd bod pryder yn lleol o ran y meinciau coffa ac y byddai'r nifer yn cynyddu, ond ei fod wedi derbyn cadarnhad gan y gwasanaeth na fyddai rhagor o feinciau gyda'r rhai mewn cyflwr da yn cael eu hail-osod mewn lleoliadau addas. Diolchodd am waith y gwasanaeth a gwaith swyddogion Ymgynghoriaeth Gwynedd o ran y Cynllun Lliniaru Llifogydd a'u parodrwyd i drafod pryderon lleol.

Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned y byddai'n trosglwyddo diolchiadau'r aelod i swyddogion Ymgynghoriaeth Gwynedd.

Cyfeiriwyd at gais gan Glwb Hwyllo Porthmadog i gynrychiolydd o'r sefydliad gael ei gyfethol ar y Pwyllgor Ymgynghorol. Nododd Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden nad oedd cynrychiolwyr Clwb Hwyllo Porthmadog wedi cysylltu gydag ef er mwyn iddo godi materion yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Ymgynghorol nac ychwaith wedi holi am yr hyn a drafodir yn y cyfarfodydd. Ychwanegodd bod gan unrhyw un berffaith hawl i fynychu cyfarfod y Pwyllgor gan fod y cyfarfodydd yn gyhoeddus.

Nododd aelod bod cyfle i unigolion fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor i wrando ar y drafodaeth.

Cadarnhaodd Harbwr Feistr Porthmadog bod y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig wedi ymateb i llythyr gan Gyngor Tref Porthmadog yng nghyswllt meinciau heb gefn yn nodi y byddai'r polion yn mynd yn eu hôl. Nododd y derbyniwyd cais gan unigolyn i osod stondin symudol er mwyn gwerthu te a bwyd ar y glaswellt yn Mhencei. Holwyd am farn yr aelodau ar y cais.

Nododd aelod ei fod yn gefnogol i'r cais ar gyfer consesiwn o'r fath a hynny ar yr un telerau a'r consesiwn hufen iâ oedd eisoes ar dir yr harbwr.

Eglurodd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned er mwyn derbyn hawl ar gyfer consesiwn o'r fath, byddai'n rhaid mynd trwy broses cystadleuol. Nododd y gallai'r Pwyllgor, pe dymument, nodi eu barn ar yr egwyddor a fyddai'n cael ei fwydo i mewn i'r broses.

Nodwyd cefnogaeth y Pwyllgor i'r cais mewn egwyddor a gofynnwyd i'r swyddogion edrych i mewn i'r mater.

Derbyniwyd diweddariad gan Gynrychiolydd Buddiannau Hamdden ar Gynllun Clwb Hwyllo Madog i gynyddu nifer y pontwŷns yn yr harbwr. Nododd yn dilyn cais y Swyddog Morwrol a Pharciau Gwledig yn y cyfarfod diwethaf i dderbyn mwy o wybodaeth, darparwyd llythyr gan 'Intermarine'. Ymhelaethodd ar gynnwys y llythyr a dangosodd gynllun o'r bwriad. Holwyd am farn y Pwyllgor ar y bwriad.

Mewn ymateb i sylwadau gan aelodau, nododd Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden:

- Byddai'r bwriad yn golygu 7 angorfa ychwanegol gydag angorfeydd rhydd yn cael eu hail-leoli;
- Byddai'r Cyngor yn derbyn arian Tollau'r Harbwr a chanran o ffioedd ymwelwyr a gesglir gan Glwb Hwyllo Madog;
- Bod y sefyllfa yn yr harbwr yn wahanol i sefyllfa Harbwr Caergybi ac fe wneir gwaith cynnal a chadw;
- Pe derbynnir caniatâd gan y Cyngor yn fuan, bwriedir bod y gwaith ynghlwm â'r cynllun wedi ei gwblhau erbyn dechrau'r tymor;
- O ran pryderon pysgotwyr yng nghyswllt effaith y bwriad ar eu symudiad allan tuag at Gei'r Wyddfa, byddai'r pontwŷns dipyn o bellter i ffwrdd o'r gwaddod a oedd wedi casglu;
- Byddai'r '*laterals*' yn cael eu claddu, gyda 2 un ochr a 4 ar yr ochr arall;
- Ei fod yn deg i Glwb Hwyllo Madog dalu'r costau pe byddai angen symud cadwyni a.y.b. yn yr harbwr er mwyn galluogi i'r cynllun gael ei wireddu;
- Byddai un angorfa ar gael am ddim i gwch y Dwyfor;
- Byddai digon o le i lansio'r bad achub bach ar y llithrfa.

Nododd yr Uwch Reolwr Economi a Chymuned bod angen dadansoddi a gwirio'r data technegol a gyflwynwyd yn y llythyr gan 'Intermarine' o ran cryfder ac addasrwydd y strwythur.

Nododd aelod nad oedd ganddo wrthwynebiad i'r bwriad pe byddai nifer yr angorfeydd yn yr harbwr yn aros yr un fath.

Nododd yr Uwch Swyddog Harbyrau bod angen ystyried effaith y newidiadau ar ddefnyddwyr eraill.

Nodwyd cefnogaeth y Pwyllgor i gynllun Clwb Hwyllo Madog mewn egwyddor.

Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod yng nghyswilt gwaith gwella'r rheiliau rhwng yr Amgueddfa Forwrol a chefn y Ganolfan a'r bwriad i osod giât, cadarnhaodd Harbwr Feistr Porthmadog bod trafodaethau wedi eu cynnal efo'r Ganolfan a bod materion wedi codi o'r trafodaethau.

Nododd Cynrychiolydd Buddiannau Hamdden yr angen i sicrhau nad oedd cerbydau yn parcio o flaen y giât oherwydd yr angen am fynediad brys. Mewn ymateb, cadarnhaodd Harbwr Feistr Porthmadog ni chaniateir parcio o flaen y giât.

Cyfeiriodd aelod at lwyddiant digwyddiad Hwyl yr Harbwr a oedd yn ffrwyth gwaith sylweddol. Nododd ei diolchiadau i'r Harbwr Feistr a'r tîm gan nodi y gobeithir cynnal mwy o ddigwyddiadau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD nodi a derbyn yr adroddiad.

8. CYFARFOD NESAF

Nodwyd y caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ar 6 Mawrth, 2019.

Dechreuodd y cyfarfod am 5.35pm a daeth i ben am 6.25pm

CADEIRYDD

Eitem 6

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
DYDDIAD	6 Mawrth 2019
TEITL	Diweddariad ar Faterion Rheoli'r Harbwr
AWDUR	Uwch Swyddog Harbyrau

1. Cyflwyniad

- 1.1 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried, trafod a chynghori ar faterion sy'n ymwneud â rheoli, diogelu a datblygu'r Harbwr a derbyn sylwadau'r Aelodau ar faterion sy'n ymwneud â Harbwr Porthmadog.
- 1.2 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad bras i'r Pwyllgor ar faterion yr harbwr ar gyfer y cyfnod rhwng mis Hydref 2018 a mis Mawrth 2019, er mwyn derbyn adborth gan yr aelodau ar faterion diogelwch a materion gweithredol yr Harbwr.

2. Angorfeydd Harbwr Porthmadog

- 2.1 Fel yn y blynyddoedd diwethaf, rhagwelir y bydd archwiliad tanddwr o'r angorfeydd yn yr harbwr yn cael ei gynnal cyn cyfnod y Pasg, yn amodol ar ymrwymiadau'r contractwr angorfeydd a'r amodau tywydd ar y pryd.

3. Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd

- 3.1. Mae Cod Diogelwch Morol Porthladdoedd (PMSC) yn amlinellu'r safon genedlaethol ar gyfer pob agwedd o ddiogelwch morol porthladdoedd. Y nod yw gwella diogelwch i bawb sy'n defnyddio neu'n gweithio yn amgylchedd y porthladdoedd morol. Mae'n berthnasol i bob Awdurdod Harbwr Statudol.
- 3.2 Mae'r Cod yn nodweddu arfer dda a gydnabyddir gan amrediad eang o fudd-ddeiliaid yn y diwydiant ac mae Cyngor Gwynedd yn deall y gall peidio â chadw at arfer dda fod yn arwydd o awdurdod harbwr sy'n torri dyletswyddau cyfreithiol penodol.
- 3.3 Mae'n angenrheidiol i'r Gwasanaeth dderbyn sylwadau a barn Aelodau'r Pwyllgor Ymgynghorol ar ba mor addas yw'r Cod Diogelwch Morol mewn perthynas â'r gweithgarwch yn harbwr Porthmadog, gan gynnwys y cymorthyddion mordwyo, addasrwydd is-ddeddfau, materion diogelwch a gwaith dydd-i-ddydd cyffredinol er mwyn adolygu'r System Rheoli Diogelwch Harbyrau sydd wedi'i chynnwys yn y Cod.
- 3.4 Fel yr adroddwyd o'r blaen rhwng 19 a 21 Medi 2017, cynhaliwyd archwiliad manwl gan archwilwyr Asiantaeth Morwrol a Gwylwyr y Glannau ar y trefniadau diogelwch penodol a systemau Harbyrau Bwrdeistrefol Gwynedd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r Cod Diogelwch Morol. Fel dilyniant i'r adolygiad blaenorol, trefnwyd ail ymweliad â Gwynedd yn ystod y cyfnod 4-6ed o Fawrth 2019. Mae Capten Forkanul Quader o Arolygaeth Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau yn bwriadu bod yn bresennol yng nghyfarfod y Pwyllgor.

3.5 Mae argraffiad diwygiedig o'r Cod Diogelwch i Harbyrau Gwynedd gan gynnwys y gwelliannau a awgrymwyd gan Arolygwyr Asiantaeth Forwrol a Gwarchodwyr y Glannau wedi ei gwblhau. Cwblhawyd archwiliadau Iechyd a Diogelwch o bob harbwr gan gynnwys Harbwr Porthmadog yn ddiweddar ac mae archwiliad allanol o'r System Rheoli Diogelwch i harbyrau Gwynedd wedi ei drefnu i'w gwblhau erbyn diwedd mis Chwefror 2019 gan yr Unigolyn Dynodedig sydd newydd ei benodi, Capten M. Forbes.

4. **Materion Staffio**

4.1 Fel yr adroddwyd yn y cyfarfod blaenorol, mae'r gwasanaeth bellach mewn sefyllfa i gadarnhau bod swydd harbwrfeistr cynorthwyol llawn amser i'w chreu yn Harbwr Porthmadog, i helpu'r harbwrfeistr gyda'i ddyletswyddau a'i gyfrifoldebau. Bydd hefyd angen i ddeiliad y swydd weithio yn harbyrau Aberdyfi ac Abermaw pan a phryd fo angen. Gwahoddir ceisiadau gan ddarpar ymgeiswyr drwy'r cyfryngau ac wedi'r broses gyfsweld, rydym yn gobeithio y bydd gennym ymgeisydd llwyddiannus fydd yn y swydd erbyn Pasg 2019.

5. **Materion Ariannol**

5.1 Bydd crynodeb bras o gyllidebau'r harbyrau a'r sefyllfa ariannol bresennol hyd at ddiwedd y chwarter yn cael ei ddarparu yn y cyfarfod.

5.2 Yn ystod y cyfnod hwn, roedd yn rhaid ymrwymo adnoddau ariannol ar gyfer yr hyn a ganlyn:

- Cynnal a chadw tiroedd a meinciau
- Cynnal a chadw cwch patrolio'r harbwr
- Offer a chyfarpar er mwyn cynnal a chadw

Ffioedd a Thaliadau 2019/20. Mae manylion ffioedd a thaliadau angorfeydd Harbwr Porthmadog am y cyfnod 2019/20 yn amgaeedig.

Nid yw'r ffioedd lansio a chofrestru Cychod Pŵer a Badau Dŵr Personol wedi eu cadarnhau hyd yma, ond ni ddisgwylir iddynt fod yn sylweddol wahanol i'r flwyddyn flaenorol.

6.0 **Adroddiad yr Harbwrfeistr.** Bydd yr Harbwrfeistr ym Mhorthmadog yn rhoi crynodeb o'r materion Modrwyo a Gweithredol a godwyd yn ystod y cyfnod rhwng mis Mawrth a mis Hydref 2018 a Mawrth 2019, gan gynnwys materion cynnal a chadw. Mae copi o'i adroddiad wedi'i atodi.

Harbwr Porthmadog Harbour
2019/20

Prisiau yn eithrio TAW	2018-19	2018-19	2019-20	2019-20	Prices exclude VAT
<i>Er manteisio ar y ffi 'lleol' mae yn hanfodol fod daliwr yr angorfa wedi bod yn breswyl yn barhaol a llawn amser yng Ngwynedd am y bum mlynedd diwethaf.</i>	Lleol Local Ex. VAT	Eraill Others Ex.VAT	Lleol Local Ex. VAT	Eraill Others Ex.VAT	<i>For a 'local' rate to apply the applicant must have been resident in Gwynedd on a permanent and full time basis for the previous five years</i>
Tollau Harbwr y fedr (Ffi blynyddol. Pob cwch)	34.68	34.68	35.72	35.72	Harbour Dues per meter (Annual fee. All vessels)
Ffi Trwydded Angorfa Stad Y Goron-pob angorfa (Eithrwyd TAW)	25.50	25.50	26.27	26.27	Crown Estate Mooring License-all moorings (VAT exempt)
Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 1	334.41	412.30	344.44	424.67	Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 1
Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 2	311.57	391.74	320.92	403.49	Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 2
Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 3	288.70	366.59	297.36	377.59	Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 3
Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 1	300.70	378.02	309.72	389.36	Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 1
Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 2	277.84	354.91	286.18	365.56	Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 2
Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 3	254.99	334.58	262.64	344.62	Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 3
Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 1	195.67	242.47	201.54	249.74	Drying Mooring + Harbour Dues Area 1
Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 3	149.96	196.76	154.46	202.66	Drying Mooring + Harbour Dues Area 3
Trwydded Angorfa - Angorfeydd Preifat (Angorfeydd ôl a blaen yn unig) yn cynnwys Borth y Gest	46.75	46.75	48.15	48.15	Mooring License – Private Moorings per mooring (Fore and aft moorings only) including Borth y Gest
<i>Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod</i>					<i>Visiting Vessels – Daily or part of day</i>
Cwsmeriaid Harbwr/Marina Cyngor Gwynedd	5.00	-	5.00	-	Gwynedd Council Harbour/Marina Clients
Pob Cwch Ymweld Arall	-	6.67	-	6.67	All Other Visiting Vessels
<i>Ardal 4 Borth-y-Gest</i>					<i>Area 4 Borth-y-Gest</i>
Pris y fedr am flwyddyn	20.40	35.70	21.01	36.77	Price per meter per annum
Cychod Masnachol (Cofrestredig) Pris y D.G dyddiol neu rhan diwrnod	0.85	0.85	0.88	0.88	Commercial Vessels (Registered) Price per G.R.T per day or part of day
Trwydded Parcio a Lansio – uchafswm 50 llestr	1475.90	-	1520.18	-	Park and Launch License – max 50 vessels
Lansio cychod eraill – fel ffioedd lansio traethau	-	-	-	-	Launching fees – as per beach launching fees
Gaeafu ar ddŵr yr Harbwr + 25% Tollau Harbwr	158.10	158.10	162.84	162.84	Vessels on winter moorings + 25% Harbour Dues
Diddymu cais angorfa. Gorddewisol	Rheol 1/18	Rule 1/18	Rheol 1/18	Rule 1/18	Cancellation of mooring (Discretionary)

Harbwr Porthmadog Harbour

2019/20

Prisiau yn cynnwys TAW	2019-20	2019-20	Prices include VAT
<i>Er manteisio ar y ffi 'lleol' mae yn hanfodol fod daliwr yr angorfa wedi bod yn breswyl yn barhaol a llawn amser yng Ngwynedd am y bum mlynedd diwethaf</i>	Lleol Local	Eraill Others	<i>For a 'local' rate to apply the applicant must have been resident in Gwynedd on a permanent and full time basis for the previous five years</i>
Tollau Harbwr y fedr (Ffi blynyddol. Pob cwch)	42.87	42.87	Harbour Dues per meter (Annual fee. All vessels)
Ffi Trwydded Angorfa Stad Y Goron-pob angorfa (Eithriwyd TAW)	26.27	26.27	Crown Estate Mooring License-all moorings (VAT exempt)
Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 1	413.33	509.60	Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 1
Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 2	385.10	484.18	Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 2
Rhent Angorfa Dŵr Dwfn + Tollau Harbwr Ardal 3	356.83	453.11	Deep Water Mooring Rental + Harbour Dues Area 3
Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 1	371.67	467.23	Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 1
Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 2	343.41	438.67	Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 2
Rhent Angorfa Gwlyb + Tollau Harbwr Ardal 3	315.17	413.55	Wet Mooring Rental + Harbour Dues Area 3
Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 1	241.84	299.69	Drying Mooring + Harbour Dues Area 1
Rhent Angorfa Sych + Tollau Harbwr Ardal 3	185.35	243.19	Drying Mooring + Harbour Dues Area 3
Trwydded Angorfa - Angorfeydd Preifat (Angorfeydd ôl a blaen yn unig) yn cynnwys Borth y Gest	57.78	57.78	Mooring License – Private Moorings per mooring (Fore and aft moorings only) including Borth y Gest
<i>Cwch ymwelwyr – Dyddiol neu rhan o ddiwrnod</i>			<i>Visiting Vessels – Daily or part of day</i>
Cwsmeriaid Harbwr/Marina Cyngor Gwynedd	6.00		Gwynedd Council Harbour/Marina Clients
Pob Cwch Ymweld Arall		8.00	All Other Visiting Vessels
<i>Ardal 4 Borth-y-Gest</i>			<i>Area 4 Borth-y-Gest</i>
Pris y fedr am flwyddyn	25.21	44.13	Price per meter per annum
Cychod Masnachol (Cofrestredig) Pris y D.G dyddiol neu rhan diwrnod	1.05	1.05	Commercial Vessels (Registered) Price per G.R.T per day or part of day
Trwydded Parcio a Lansio – uchafswm 50 llestr	1824.21	-	Park and Launch License – max 50 vessels
Lansio cychod eraill – fel ffioedd lansio traethau	-	-	Launching fees – as per beach launching fees
Gaeafu ar ddŵr yr Harbwr + 25% o'r Tollau Harbwr	195.41	195.41	Vessels on winter moorings + 25% of Harbour Dues
Diddymu cais angorfa (Gorddewisol)	Rheol 1/18	Rule 1/18	Cancellation of mooring (Discretionary)

Ffioedd Lansio a Cofrestru Cychod Pŵer & Badau Dŵr Personol
Powerboats & Personal Watercraft Launching and Registration Fees

01/04/2019 – 31/03/2020

Holl ffioedd yn cynnwys TAW / All fees inclusive of VAT

	Ffi Adnewyddiad (Trwyddedau Bach)	2019/20	Renewal Fees (Small Permits)
	Ail-cofrestru Blynyddol	£35.00	Annual Re-registration
	Ceisiadau Llestr Newydd (Trwyddedau Mawr a Bach)		New Vessel Applications (Large and Small Permits)
	Cofrestru Blynyddol	£45.00	Annual Registration
Tud. 12	Ffi Lansio		Launching Fees
	Lansio dyddiol - Llithrfeydd/Traethau Cyffredinoll Lansio dyddiol - Traeth Morfa Bychan (yn cynnwys parcio)	£10.00 £13.00	Daily launch – General Slipways/Beaches Daily launch – Morfa Bychan Beach (includes parking)
	Trwydded Lansio Blynyddol (1 Ebrill – 31 Mawrth) <u>Cynnwys Ffi Cofrestru</u>	£150.00	Annual Launching Permits (1 April – 31 March) <u>Inclusive of Registration Fee</u>
<p>Only Postal Applications are accepted at the Main Council Offices in Pwllheli. In Person applications will be processed on the day at any of the Council's harbour offices, or during the summer season at the main resort beaches.</p>			
	Trosglwyddo / Ailddodiad		Transfer / Replacement
	Ceisiadau drwy'r post yn unig i <u>Swyddfa Forwrol y Cyngor ym Mhwllheli</u>	£45.00	Postal application only to the <u>Council Maritime Office in Pwllheli</u>
	Cychod llai na 10 HP (Dim Ffi Lansio)		Vessels under 10 HP (No Launch Fee)
	Ffi Cofrestru Blynyddol – <u>Ceisiadau Mewn Person yn Unig</u> Yn Swyddfeydd yr Harbyrau neu ar y Prif Draethau gyda'r cwch ar gael er ei archwilio	£30.00	Annual Registration Fee – <u>In Person Application Only</u> At the Harbour Offices or at the main Resort Beaches, with the vessel available for inspection

CYFARFOD	Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Porthmadog
DYDDIAD	6 Mawrth 2019
TEITL	Adroddiad yr Harbwrfeistr
AWDUR	M. Humphreys Harbwrfeistr Porthmadog

H 1 Materion Mordwyo

Mae'r cymhorthion mordwyo ger y ddynesfa i Harbwr Porthmadog wedi bod yn destun gwaith cynnal a chadw parhaus, gyda gwaith pellach i'w gwblhau eto.

- 1.1 Yn amodol ar gymeradwyaeth Trinity House, bydd cymhorthion mordwyo bwi rhif 1 a rhif 3 *Starboard* yn cael eu comisiynu i'r gwasanaeth i gynorthwyo morwyr wrth groesi'r bar tywod wrth y fynedfa i sianel Porthmadog.
- 1.2 Yn unol â hynny, gwneir diwygiadau i safleoedd cymhorthion mordwyo bwi Rhif 2 a Rhif 4 y porthladd i alinio gyda'r marciau llaw *Starboard* newydd a gomisiynwyd yn dilyn cymeradwyaeth.
- 1.3 Atgoffir morwyr o'r angen i fordwyo'r sianel 1.5 awr naill ochr i'r penllanw wrth fordwyo cwch gyda dyfnder mwy nag 1.5 metr. Atgoffir morwyr hefyd y dylid cysylltu â swyddfa'r harbwr cyn cyrraedd er mwyn derbyn y wybodaeth fordwyo ddiweddaraf. Bydd newidiadau i unrhyw gymhorthion mordwyo yn cael eu cylchredeg drwy Rybudd Lleol i Forwyr.
- 1.4 Fel y soniwyd eisoes, mae'r Gwasanaeth yn edrych i brynu Marc Dŵr Diogel newydd i'w osod yn lle'r bwi sydd yna ar hyn o bryd. Mae bwi a wneuthurwyd gan gwmni o'r enw Sealite wedi cael ei adnabod fel un addas, ar gost o £4,100 ar ben costau danfon. Gobeithir ymhellach y bydd y bwi Cymhorthydd Mordwyo *Starboard* Rhif 17 yn cael ei newid am fwi sy'n debyg o ran maint a natur i'r rheini sydd yn y sianel ger Borth-y-gest.
- 1.5 Ar hyn o bryd, mae dau Rybudd Lleol i Forwyr yn weithredol yn Harbwr Porthmadog.
 - 1.5.1 Rhybudd i Forwyr rhif 21/18 - Nid yw bwi cymhorthydd mordwyo Rhif 6 ar ei safle priodol ar hyn o bryd, ac mae'n disgwyl cael ei leoli.
 - 1.5.2 Rhybudd i Forwyr rhif 22/18 - Nid yw bwi cymhorthydd mordwyo Rhif 2 ar ei safle priodol, ac mae'n disgwyl cael ei leoli.
- 1.6 Mae'r Gwasanaeth yn cynghori y bydd pob arwydd mordwyo yn ei leoliad ac yn llwyr weithredol mor fuan ag y bo'n ymarferol bosib, yn dibynnu ar ymrwymadau staffio ynghyd â chyflwr y tywydd a'r llanw.

H 2 Materion Gweithredol

- 2.1 Drwy gydol cyfnod y gaeaf, mae symudiadau cychod yn nynesfeydd yr harbwr a'r sianel wedi bod yn gyfyngedig. Rhagwelir y bydd y cychod hynny sydd ar y lan yn yr iard gychod yn cael eu dychwelyd yn raddol i'r dŵr wrth i gyfnod y Pasg gyrraedd. Yn ôl nifer yr ymholiadau a wnaed yn swyddfa'r harbwr dros gyfnod y gaeaf o ran argaeledd angorfeydd, mae'r gwasanaeth yn gobeithio cael tymor prysur.
- 2.2 Mae cynlluniau i ymestyn strwythur cyfredol y pontŵn yn yr harbwr yn mynd yn eu blaen yn dilyn cymeradwyaeth, a gobeithir derbyn diweddariad yn y cyfarfod gan gynrychiolydd diddordebau Hamdden.

H 3 Cynnal a Chadw

- 3.1 Gwneir gwaith cynnal a chadw ar yr angorfeydd yn dilyn archwiliad tanddwr er mwyn galluogi i'r contractwr angorfeydd newid unrhyw offer sydd wedi gwisgo. Rhagwelir y bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau cyn cyfnod y Pasg. Hyd yma, nid yw'r gwasanaeth wedi derbyn pris i gynnal y gwaith archwilio.
- 3.2 Mae rhan newydd o ffens fetel â mynedfa giât gysylltiol wedi cael eu gosod rhwng swyddfa'r harbwr a chefn y Ganolfan, gyda gwaith tarmacio i'w gwblhau o gwmpas gwaelod y polion newydd. Mae Gweinyddwyr y Ganolfan yn ymwybodol o'r datblygiadau.
- 3.3 Mae meinciau o gwmpas amgylchedd yr harbwr wedi cael eu hadnewyddu, gyda gwaith pellach i'w gwblhau. Mae'r gwasanaeth dal yn derbyn ceisiadau i osod meinciau o gwmpas yr harbwr, gyda llyfdd cyfyngedig ar gael yn unig.
- 3.4 Yn ystod tywydd garw, mae'r harbwrfeistr wedi gallu cynnal gweithdrefnau gweinyddol gan gynnwys prosesau asesiad risg o beryglon a adnabuwyd o gwmpas amgylchedd yr harbwr.

H 4 Materion Eraill

- 4.1 **Borth-y-gest.** Mae'r gwaith ar wal y morglawdd wedi'i gwblhau. Mae plinthiau concrit wedi cael eu gosod o gwmpas blaen y maes parcio sy'n edrych tuag at y bae, i dderbyn meinciau sydd heb gael eu gosod eto. Gobeithir cwblhau'r gwaith hwn cyn diwedd mis Mawrth.
 - 4.1.1 Gobeithir gosod silffoedd dingi sy'n edrych dros y maes parcio ym Morth-y-gest mewn ymdrech i dacluso'r ardal lastwellog lle mae nifer o gychod yn cael eu cadw ar hyn o bryd. Rhoddir rhybuddion perthnasol ar gychod yn yr ardal honno. Yn ystod y broses hon, bydd cychod nad ydynt yn addas i'r môr a threlars rhydlyd yn cael eu symud oddi yno. Mae'r Gwasanaeth yn ymwybodol y bydd mesur o'r fath yn amhoblogaidd gyda nifer o breswylwyr

- 4.3 **Arwyddion diogelwch RNLI.** Mae proflenni arwyddion diogelwch RNLI, sydd i'w gosod yn ardal Morfa Bychan, wedi cael eu derbyn a'u gwirio. Disgwylir i'r arwyddion fod yn eu lle cyn diwedd cyfnod y Pasg.
- 4.4 Mae'r Gwasanaeth wedi derbyn budd cyfranogwyr sy'n rhan o raglen Gwobr Dug Caeredin, sydd wedi cynorthwyo staff yr harbwr i lanhau amgylchedd yr harbwr ym Mhorthmadog, ac ar bromenâd Cricieth hefyd, dros gyfnod y gaeaf. Mae'n galonogol gweld y fath weithgareddau'n cael eu cynnal yn y gymuned. Mae nifer o ddigwyddiadau glanhau traethau wedi digwydd yn yr ardal dros gyfnod y gaeaf hefyd, a chefnogwyd y digwyddiadau hynny gan offer wedi'i ddarparu gan y Gwasanaeth. Mae'r Gwasanaeth yn ddiolchgar i bob unigolyn sy'n cyfranogi yn y fath weithgarwch

H5 **Digwyddiadau**

- 5.1 Mae'r Gwasanaeth wedi cael ei hysbysu o ddigwyddiad 'Gwledd Symudol' y bwriedrir ei chynnal yn Harbwr Porthmadog ar 13 Gorffennaf 2019.
- 5.2 Rhagwelir y bydd y gwasanaeth yn derbyn hysbysiadau pellach o fewn y mis nesaf ynghylch digwyddiadau neu weithgareddau arfaethedig eraill o fewn amgylchedd yr harbwr, yn benodol y rheini a gynhelir yn flynyddol fel arfer.



Harbwr Porthmadog Harbour

Mae'r sianel yn newid ei chwrn yn rheolaidd, cynghorir bod morwyr yn cysylltu efo'r Harbwrfeistr ym Mhorthmadog am y wybodaeth ddiweddaraf

The channel changes it's course on a regular basis, it's advised to contact the Harbourmaster at Porthmadog for the latest information.

01766 512927 / 07879 433 147

VHF:12 / 16

Traeth y Graig Ddu
Black Rock Sands



Nid yw yn cael ei ddefnyddio ar gyfer mordwyo
Not to be used for navigation



FAIRWAY
LFLW 10s

52° 52.970 N 004° 11.200 W

4 FL R 2 5s

8 FL R 4 15s

Trwyn Harlech Point

7 FL G 3 10s

9 FL 4 15s

10 FL R 2 10s

13 FL G 2s

12 FL R 4s

15 FL G 2 5s

14 FL R 2 6s

17 FL G 6s

Cei Balast

Borth y Gest

Bae Samson

Cwt powdr
Powder house

Banc y gogledd
North bank

11/02/2019

Cynghorir morwyr i beidio mordwyo dros y draethell oni bai fod o fewn 2 awr pob ochor i'r pen llanw, cychod gyda drafft fwy na 1.5 i fod fewn 1.5 awr bob ochor i'r pen llanw.

The channel should not be used at any time other than 2hrs either side of high water, vessels with a draft greater than 1.5m should only use the channel 1.5 hrs either side of high water

Cyngor Gwynedd Council

Uned Morwrol a Pharciau Gwledig

Maritime & Country Parks Unit

Tel, 01758 704 066

Malcolm Humphreys

Harbwr Feistr Porthmadog Harbour Master

Fairway	L FL W 10s	52° 52.970 N	004° 11.200 W
1	Q.FL G	Tor parhad dros dro	Temp discontinuance
2	Q.FL R		
3	FL G 3s	Tor parhad dros dro	Temp discontinuance
4	FL R(2)5s	52° 53.158 N	004° 10.289 W
5	FL G(2)5s	Tor parhad dros dro	Temp discontinuance
6	FL R (3)10s		
7	FL G (3)10s	52° 53.681 N	004° 09.471 W
9	FL G (4)15s	52° 53.957 N	004° 09.095 W
11	FL G (5) 20s	Tor parhad dros dro	Temp discontinuance
8	FL R (4)15s	52° 53.506 N	004° 09.786 W
10	FL R 2.5s	52° 54.587 N	004° 09.005 W
13	FL G 2s	52° 54.481 N	004° 08.594 W
12	FL R 4s	52° 54.562 N	004° 08.534 W
15	FL G (2) 5s	52° 54.764 N	004° 08.151 W
14	FL R (2) 6s	52° 54.863 N	004° 07.942 W
17	FL G 6s	52° 55.015 N	004° 07.866 W

4.3 I osgoi amheuaeth, nid yw rheol 10(5) na 10(6) o Reolau Gweithdrefn y Cyngor (cadeirio mwy nag un pwyllgor; tymor swydd cadeirydd) yn berthnasol i'r Pwyllgor.

5. Cworwm a Phleidleisio.

5.1 Bydd gan bob aelod o'r Pwyllgor bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron y pwyllgor.

5.2 Caniateir i'r cyrff neu fudiadau sy'n cynrychioli buddiannau defnyddwyr yr harbwr anfon eilydd neu ddirprwy i'r cyfarfodydd yn absenoldeb yr aelod sefydlog a bydd gan y deilydd neu ddirprwy bleidlais yn yr un modd â'r aelod sefydlog

5.3 Y cworwm ar gyfer cyfarfodydd o'r Pwyllgor fydd chwarter yr aelodaeth bleidleisiol a fydd yn cynnwys o leiaf un cynghorydd sir.

5.4 Caniateir i sylwedydd o bob un o'r tri phwyllgor ymgynghorol harbwr arall fynychu'r cyfarfodydd ond ni fydd ganddynt bleidlais ar unrhyw fater a ddaw gerbron.

6. Amllder Cyfarfodydd.

6.1 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn arferol ddwywaith y flwyddyn.

6.2 Bydd gan y Cadeirydd hawl i alw cyfarfodydd arbennig o'r Pwyllgor os bydd o'r farn fod angen trafodaeth ar unrhyw fater rhwng cyfarfodydd arferol y Pwyllgor.

7. Cylch Gorchwyl.

7.1 Swyddogaeth y Pwyllgor fydd ystyried a chynghori'r Cabinet ynglŷn â materion yn ymwneud â rheolaeth, diogelwch a datblygiad yr harbwr.

7.2 Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried a chynghori'r Cabinet ar unrhyw fater perthynol arall a gyfeirir ato gan y Cabinet i'w ystyried o dro i dro.

7.3 Bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ymgynghori hefo'r Pwyllgor ar unrhyw fater sydd, ym marn y Cabinet, yn debygol o effeithio'n sylweddol ar reolaeth, diogelwch neu ddatblygiad yr harbwr; a bydd yn ddyletswydd ar y Cabinet i ystyried unrhyw gyngor a roddir iddo gan y Pwyllgor ond ni fydd dan rwymedigaeth i weithredu yn unol â'r cyngor a roddir.

8. Trefn y cyfarfodydd.

Yn amodol ar unrhyw ddarpariaeth i'r gwrthwyneb yn y Cyfansoddiad hwn, rheolir gweithgareddau'r Pwyllgor gan reolau gweithdrefn y Cyngor.